

BLAYNEY, THOMAS (1785 -?), telynor

Enw: Thomas Blayney
Dyddiad geni: 1785
Rhiant: Letitia Blayney
Rhiant: Arthur Blayney
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: telynor
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd yn Tyncoed, Llanllwchaearn, Sir Drefaldwyn, mab i Arthur a Letitia Blayney. Enillodd y wobr (telyn arian a 30 gini) yn eisteddfod Caerfyrddin, 1819. Dywed **Thomas Price** ('Carnhuanawc') mai ef oedd y cyntaf iddo ei glywed yn canu'r delyn deir-res, a thystia i'w enwogrwydd fel telynor.

Cadwai westy yn Lydney North, ger Walcot, plasty **Arglwydd Powis** yn Sir Amwythig. Yn 1829 penodwyd ef yn delynor i deulu **Arglwydd Powis**, ond bu farw ymhen ychydig wedi ei benodiad, ond nid oes sicrwydd am yr amser. Yr oedd ei frawd, ARTHUR BLAYNEY, yn enwog fel chwaraewr medrus ar y ffidil.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Seren Gomer, 1819

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Llyfr Cerdd Dannau (Caernarfon 1913)

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734421

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Grannu

Arddull APA

x

Griffith, R. D., (1953). BLAYNEY, THOMAS (1785 -?), telynor. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BLAY-THO-1785>

Griffith

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government